| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 28 Ionawr 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Awdur yr adroddiad** | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Cynllun Cyfalaf 2024/25 – 2027/28 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar Gynllun Cyfalaf 2024/25 ac yn cyflwyno Cynllun Cyfalaf 2025/26 i'r Cyngor ei gymeradwyo. Mae'r Grŵp Craffu Cyfalaf wedi adolygu'r cynigion cyfalaf ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2025/26 ac mae eu hargymhellion wedi eu hystyried gan y Cabinet ac maent ynghlwm.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu Cynllun Cyfalaf wedi'i ddiweddaru i'r Aelodau ynghyd â'r Adroddiad Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2025/26. Mae'r Cynllun Cyfalaf yn cofnodi holl gyllid a gwariant cyfalaf gwirioneddol Cronfa'r Cyngor a'r hyn a ragwelir. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn darparu trosolwg lefel uchel, cryno a chynhwysfawr o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Mae Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau'n nodi'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r Cynllun Cyfalaf 2024/25 – 2027/28 presennol sydd yn Atodiad 1 a'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau mawr yn Atodiad 2.

3.2 Bod Aelodau yn cefnogi argymhellion y Grŵp Craffu Cyfalaf a'r Cabinet yn ymwneud â chynigion cyfalaf i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2025/26 fel y nodir yn Atodiad 3 ac a gaiff eu crynhoi yn Atodiad 4.

3.3 Bod Aelodau'n cymeradwyo Cynllun Cyfalaf 2025/26 sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

3.4 Bod Aelodau'n cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2025/26 fel y manylir yn Atodiad 5.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae Cynllun Cyfalaf y Cyngor yn cynnwys buddsoddi adnoddau sylweddol mewn ystod eang o asedau yn yr hirdymor i alluogi darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r asedau'n cynnwys adeiladau (fel ysgolion, gofod swyddfa a chartrefi gofal), isadeiledd (fel priffyrdd a rhwydweithiau TG) ac asedau nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor (fel gwaith i wella ac addasu cartrefi'r sector preifat).

Mae'r Cyngor yn cael adnoddau cyfalaf cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru i gefnogi blaenoriaethau, anghenion a rhwymedigaethau'r Cyngor; fodd bynnag, mae ganddo rym i ariannu cynlluniau cyfalaf drwy fenthyca. Ond rhywbeth dros dro yw hyn ac yn y pen draw mae costau ac ad-daliadau unrhyw fenthyciad yn dod o gyllideb refeniw'r Cyngor. Rhaid i gynlluniau sy'n cael eu hariannu trwy fenthyca gael eu hystyried yn ofalus oherwydd yr effeithiau hirdymor ar gyllideb refeniw'r Cyngor.

4.1 **Cynllun Cyfalaf 2024/25**

Y tro diwethaf i'r Cynllun Cyfalaf gael ei adrodd i'r Cyngor oedd ym mis Chwefror 2024. Cyflwynir diweddariadau rheolaidd i'r Cabinet. Mae'r Cynllun Cyfalaf amcangyfrifedig ar gyfer 2024/25 yn awr yn £81.8m ac mae wedi'i grynhoi fesul maes gwasanaeth yn Atodiad 1, ynghyd ag amcangyfrifon o wariant a chyllid dros y blynyddoedd 2025/26 – 2027/28. Mae Atodiad 2 yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau canlynol:

- Ail-fodelu Gwasanaethau Gwastraff
- Cynlluniau Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn a Chanol y Rhyl

## 4.2 Cynllun Cyfalaf 2025/26

Fel yr adroddwyd yn eang, mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol, fel y mae'r holl gynghorau yng Nghymru o ganlyniad i bwysau chwyddiant a phwysau a arweinir gan alw sydd ymhell y tu hwnt i'r lefel o gyllid a ragwelir.

Oherwydd maint yr her ariannol, mae'r egwyddorion canlynol wedi cael eu cytuno yn flaenorol ar gyfer cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol:

- Dylai'r Cyngor weithio tuag at roi cap ar y dyraniadau bloc ar lefel y cyllid cyfalaf a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru.
- Dylid blaenoriaethu materion Iechyd a Diogelwch brys.
- Dylid rhoi ystyriaeth i gynlluniau buddsoddi i arbed, hyd yn oed os mai lleihau pwysau yn y tymor canolig yw'r budd.
- Derbyniadau cyfalaf neu oedi i brosiectau eraill fydd yr unig ffynhonnell gyllid fydd ar gael.
- Cynlluniau a ariennir trwy grantiau – mwy o ddibyniaeth ar ddefnyddio cyllid grant mor effeithiol ag sy'n bosibl. Cynlluniau a ariennir yn gyfan gwbl gan grantiau fyddai'r dewis a ffefrir yn amlwg, ond cydnabyddir y bydd angen arian cyfatebol weithiau. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i unrhyw effaith refeniw barhaus yn sgil grant cyfalaf.

## 4.3 Argymhellion y Grŵp Craffu Cyfalaf

Mae'r Grŵp Craffu Cyfalaf wedi adolygu ceisiadau cyfalaf ac wedi gwneud argymhellion i'w cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf o 2025/26 ymlaen. Manylir ar y rhain yn Atodiad 3 ac fe geir crynodeb yn Atodiad 4.

Wrth osod Cynllun Cyfalaf 2025/26 mewn cyfarfodydd ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd, bu i'r Grŵp Craffu Cyfalaf ystyried sut i ehangu'r egwyddorion eang a ddatblygwyd gyntaf yn 2024/25 (gweler uchod). Bu iddynt ganolbwyntio ar ostwng y dyraniadau bloc tuag at y lefel o gyllid cyfalaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, a dybiwyd a fyddai'r un fath â chyllid 2024/25 (£6.185 miliwn).

Bu i wasanaethau gyflwyno achosion busnes yn dangos sut y bydd y dyraniadau'n cael eu gwario a gan ddarparu asesiad o effaith a risg unrhyw ostyngiad mewn cyllid ar gyfer ystyriaeth a chraffu gan Aelodau. Cyfanswm y dyraniadau bloc ar gyfer 2025/26 a gefnogwyd gan y Grŵp Craffu Cyfalaf yn ei gyfarfod mis Tachwedd yw

£7.227m (a ostyngwyd o £8.362m yn 2024/25), gyda £6.185m i'w ariannu o dderbyniadau cyfalaf Llywodraeth Cymru a £1.542m i'w ariannu o dderbyniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn ac i raddau llawer llai benthyca darbodus.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid cyfalaf 2025/26 a oedd ar gael yn Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol. Dyraniad Sir Ddinbych yw £6.945 miliwn, mae hyn £0.760 miliwn yn uwch na'r lefel cyllid tybiedig uchod. Caiff y cyllid ychwanegol hwn ei ddangos yn Atodiad 4 fel arian ychwanegol at raid. Wrth i ragor o wybodaeth gan LlC ar grantiau Cyfalaf ychwanegol sydd ar gael yn 2025/26 ddod yn gliriach dros y misoedd nesaf, y bydd rhai ohonynt yn ategu'r dyraniadau bloc, ac yn cynorthwyo'r Cyngor i benderfynu ar y ffordd orau o ddyrannu'r cyllid ychwanegol.

**4.4 Strategaeth Gyfalaf 2025/26 (Atodiad 5)**

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r modd mae gweithgarwch gwariant cyfalaf Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai, ariannu cyfalaf a rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd â throsolwg o sut mae'r risg gysylltiedig yn cael ei rheoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys y dangosyddion darbodus a ragnodir gan God Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae'r Cod yn gofyn i awdurdodau edrych ar gynlluniau gwariant cyfalaf, buddsoddiadau a dyledion yng ngoleuni strategaeth sefydliadol gyffredinol ac adnoddau a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan roi ystyriaeth ddigonol i'r goblygiadau ariannu hirdymor a risgiau posibl i'r awdurdod. Mae'r dangosyddion darbodus sy'n ofynnol gan y Cod wedi'u dylunio i gefnogi a chofnodi gwneud penderfyniadau lleol mewn modd sy'n atebol yn gyhoeddus.

# 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae prosiectau wedi'u hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni amcanion corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae gofyn i bob prosiect newydd gwblhau ffurflen achos busnes lle caiff costau a chyllid cyfalaf a refeniw eu hystyried ochr yn ochr ag asesiad o effaith ar staff, TGCh, gofod a'r newid yn yr hinsawdd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Cwblhawyd Asesiad o Effaith llawn ar gyfer pob cais cyfalaf a adolygwyd gan y Grŵp Craffu Cyfalaf. Mae crynodeb o'r rhain wedi eu cynnwys yn Atodiad 6. Gellir gweld yr adroddiadau llawn yn Llyfrgell yr Aelodau.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae'r holl brosiectau cyfalaf / ceisiadau cyfalaf newydd yn cael eu craffu gan y Grŵp Craffu Cyfalaf. Mae prosiectau'n cael eu paratoi ac yna'n cael eu monitro mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae'r ffigyrau a ddefnyddir yn yr adroddiadau yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf sydd ar gael.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ni ddylai unrhyw brosiect ddechrau nes iddo dderbyn cyllid llawn yn erbyn cynllun prosiect cadarn a chael ei drafod gyda'r Grŵp Craffu Cyfalaf. Mae angen i noddwyr prosiectau arfer rheolaeth dynn dros eu gwariant cyfalaf i sicrhau bod y prosiectau'n aros o fewn cyllidebau.

9.2 Mae'n bwysig fod pob agwedd ar y gyllideb yn cyfrannu at sicrhau bod y Cyngor yn aros yn ariannol gynaliadwy. Mae Aelodau wedi awgrymu bod y Cyngor yn ystyried lleihad o ran y rhaglen gyfalaf fel rhan o'r gwaith cyffredinol i osod cyllidebau cytbwys yn y dyfodol. Mae angen rhoi ystyriaeth i hyn ochr yn ochr â'r gofyniad i'r Cyngor barhau i fuddsoddi'n briodol yn ei asedau. Gall peidio â gwneud hynny achosi costau mwy sylweddol yn yr hirdymor. Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae gwerth termau real cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi golygu fod y Cyngor wedi gorfod dibynnu ar ei adnoddau ei hun yn gynyddol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai risgiau posibl yn cynnwys cynlluniau'n methu â gwneud cynnydd, colli grant ac amharu ar wasanaethau. Byddai cyflwr asedau yn parhau i ddirywio pe na bai unrhyw fuddsoddiad yn cael ei wneud, a gallai hynny arwain at golli gwasanaethau pwysig.

10.2 Nid oes unrhyw brosiect cyfalaf heb risg. Fodd bynnag, mae'r Grŵp Craffu Cyfalaf yn adolygu'r holl gynlluniau sydd hefyd yn cael eu monitro a'u hadrodd yn rheolaidd a pharhaus.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol (1972), mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.